




Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cymorth i Brynu – Cymru

Canllawiau Fforddiadwyedd
a Chymhwysedd
Estyniad Cam 3



www.llyw.cymru/cymorth-i-brynu-cymru

Cynnwys

Fforddiadwyedd – Canllawiau Cyffredinol	4
Ystyried incwm	4
Hyblygrwydd, lluosymiau incwm ac atgyfeiriadau	4
Blaendaliadau	4
Fforddiadwyedd – Cyflogaeth	6
Tri mis neu fwy mewn cyflogaeth ddilynol gyda'r un cyflogwr	6
Llai nai thri mis mewn cyflogaeth ddilynol gyda'r un cyflogwr	6
Ystyried lwfansau o slipiau cyflog	6
Codiadau cyflog	7
Bonws a chomisiwn	7
Didyniadau – Pensiynau, benthyciadau i fyfyrwyr a chynhaliaeth plant	7
Absenoldeb mamolaeth	8
Fforddiadwyedd – Hunangyflogaeth	9
Unig fasnachwyr a phartneriaethau	9
Cyfarwyddwr cwmni cyfyngedig	9
Is-gontractwyr	9



Fforddiadwyedd – Pensiynau, Budd-daliadau a Lwfansau a Chynhaliaeth	11
Pensiynau	11
Budd-daliadau a lwfansau'r lluoedd	11
Budd-daliadau a lwfansau anabledd	12
Budd-daliadau a lwfansau ar gyfer trydydd partïon/dibynnyddion	13
Credyd Cynhwysol	14
Bwrsariaethau a Thâl Myfyrwyr	14
Cymhwysedd – Canllawiau Cyffredinol	15
Clirio dyledion	15
Pellter cymudo rhesymol	15
Gweithio o bell a gweithio gartref	15
Preswylfa barhaol	15
Prawf o'ch cyfeiriad	16

Fforddiadwyedd – Canllawiau Cyffredinol

Defnyddiwch y ddogfen hon fel canllaw ar gyfer gofynion asesiad fforddiadwyedd Cymorth i Brynu – Cymru.

Ystyried incwm

Ystyrir incwm pob ymgeisydd gan dybio eu bod yn rhan o'r morgais cyntaf a benthyciad rhannu ecwiti Cymorth i Brynu – Cymru.

Dylid ystyried incwm yn y drefn hon:

- 1) Incwm sylfaenol
- 2) Taliadau cyson/parhaol arall â thystiolaeth ar slipiau cyflog dilynol (goramser contractiol – rolau megis y gwasanaeth tân, nyrs ymrestredig, lwfans car, lwfans sifft ac ati)
- 3) Bonws, goramser, budd-daliadau a lwfansau anghyson eraill.

Hyblygrwydd, lluosymiau incwm ac atgyfeiriadau

Bydd ceisiadau lle mae'r lluoswm incwm yn disgyn rhwng 2x a 4.5x yn cael eu derbyn gan gymryd y bydd holl feini prawf eraill y cynllun yn cael eu bodloni.

Mae Cymorth i Brynu – Cymru wedi eu hymrwymo i fenthycia cyfrifol a sicrhau bod ymgeiswyr yn gallu fforddio'r benthyciad rhannu ecwiti yn gyfforddus. Felly:

- Nid oes hyblygrwydd ar gymarebau dyled i incwm aelwyd sydd uwch na 45%.
- Uchafswm y lluosrif incwm yw 4.5x. Caiff ceisiadau â lluosrif incwm sy'n uwch na 4.5x eu gwrthod.

Nid oes unrhyw hyblygrwydd ar y cyfyngiadau uchod.

Egwyddorion cynllun Cymorth i Brynu – Cymru yw rhoi cefnogaeth i bobl sydd eisiau bod yn berchnogion tŷ, ac na fyddai â mynediad at forgais fforddiadwy neu allu i brynu eiddo fel arall. Ni ddylid defnyddio'r cynllun i roi benthyciad cost-efeithiol i'r rhai a allai fforddio prynu eu cartref eu hunain fel arall.

Felly, bydd unrhyw gais sy'n dangos y gallai ymgeisydd yn rhesymol fforddio mwy na 90% o'r pris prynu llawn yn cael ei wrthod. Bydd y cyfrifiad hwn yn seiliedig ar 4.5x incwm aelwyd.

Blaendaliadau

Mae'n rhaid i flaendal cyffredinol cais fod yn isafswm o 5% o bris prynu'r eiddo.

Gallai cyfraniadau blaendal ymgeiswyr gynnwys arian o:

- Eu cynilion personol
- Gwerthu eiddo blaenorol
- Cyfraniad a gafodd ei roddi
- ISA Cymorth i Brynu
- Cyfraniad Blaendal Cymorth i Brynu'r Lluoedd

Cyfraniad Blaendal Cymorth i Brynu'r Lluoedd

Mae Cynllun Cymorth i Brynu'r Lluoedd yn galluogi personél y Lluoedd Arfog i wneud cais am fenthyciad di-log a benthyg hyd at 50% o'u cyflog blynyddol, i'w ddefnyddio tuag at flaendal a chostau eraill cysylltiedig â phrynu eiddo. Mae'r benthygiad yn cael ei ad-dalu mewn rhandaliadau misol dros gyfnod penodol.

Gan fod y cyfraniad blaendal yn fenthyciad, bydd angen i Cymorth i Brynu – Cymru ystyried yr ad-daliadau misol yn ystod ein hasesiad fforddiadwyedd.

Mae angen cadarnhad arnom o gyfanswm cyfraniad y blaendal a manylion y ffigurau ad-dalu misol. Yr ad-daliadau misol dylid mewnbynnu i'r fforddiadwyedd cyfrifiannell o dan 'Taliadau Benthyciad/HP'.



Fforddiadwyedd – Cyflogaeth

Tri mis neu fwy mewn cyflogaeth ddilynol gyda'r un cyflogwr

Mae arnom angen tystiolaeth o gyflogaeth ddilynol ar ffurf y slipiau cyflog diweddaraf sy'n ymdrin â'r tri mis diwethaf. Gall hyn fod yn:

- 3 x slip cyflog misol
- 3 x slip cyflog pedair wythnos
- 6 x slip cyflog bob pythefnos
- 12 x slip cyflog wythnosol

Llai nai thri mis mewn cyflogaeth ddilynol gyda'r un cyflogwr

Os nad yw slipiau cyflog o dri mis ar gael gan gyflogaeth bresennol y prynwr, bydd arnom angen dau ddarn o dystiolaeth i brofi ei gyflog presennol. Gall hyn fod yn:

- 2 slip cyflog sy'n dangos yr incwm misol gan eu cyflogaeth bresennol ac 1 slip cyflog o rôl flaenorol (i dystio cyflogaeth ddilynol dros 3 mis).

NODER: Os oes gwahaniaeth mewn incwm i'r ddwy rôl, dylid mewnbynnu'r ffigur incwm wythnosol/misol presennol y mae tystiolaeth ohono ar y slipiau cyflog ar gyfer y rôl newydd i'r gyfrifiannell fforddiadwyedd ar gyfer y cyfnod 12 wythnos/tri mis llawn. Mae hyn yn sicrhau bod yr incwm yn adlewyrchu'r hyn y mae'r prynwr yn ei ennill ar hyn o bryd yn gywir.

Neu

- Contract gwaith/llythyr gan y cyflogwr presennol sy'n cadarnhau cyfradd tâl, oriau gwaith dan contract a dyddiad cychwyn y prynwr a'r slip cyflog cyntaf sy'n dangos incwm misol presennol y prynwr.

NODER: Dylai'r contract/llythyr fod ar bapur pennawd y cwmni ac wedi'i arwyddo gan y cyflogwr. Ni fydd angen i gontract/llythyr sy'n cadarnhau cyflog blynyddol fanylu ar oriau gwaith dan contract.

Os na ellir darparu unrhyw un o'r uchod, mae'n bosibl y rhoddir awdurdod i fwrw ati amodol. Gellir rhoi awdurdod i fwrw ati llawn ar ôl gweld slip cyflog cyntaf sy'n dystiolaeth o incwm misol presennol y prynwr.

Ystyried lwfansau o slipiau cyflog

Lwfans car; Nyrs ymrestredig; Tâl recriwtio a chadw; Lwfans sifft; Lwfansau gwaith contract arall	Gellir ei gynnwys yn yr asesiad fforddiadwyedd fel incwm sylfaenol os oes tystiolaeth gyson ar slipiau cyflog.
Treuliau (gan gynnwys teithio a bwyd); Lwfans tanwydd	Ni dderbynnir.

Codiadau cyflog

Os oes ei angen ar gyfer fforddiadwyedd, gallwn ystyried codiad cyflog os yw'n digwydd cyn cyfnewid.

Er mwyn ystyried codiad cyflog, bydd arnom angen dau ddarn o dystiolaeth sy'n dangos y codiad cyflog. Gall hyn fod yn:

- 2 slip cyflog sy'n dangos yr incwm misol ar ei gyfradd tâl uwch newydd ac 1 slip cyflog sy'n dangos ei gyfradd flaenorol. Gellir derbyn un slip cyflog sy'n dangos y cyflog blynyddol newydd (slipiau cyflog GIG er enghraifft) hefyd.

NODER: Dylid mewnbynnu'r ffigur incwm wythnosol/misol newydd y mae tystiolaeth ohono ar y 2 slip cyflog diweddaraf yn y gyfrifiannell fforddiadwyedd ar gyfer y cyfnod 12 wythnos/tri mis llawn. Mae hyn yn sicrhau bod yr incwm yn adlewyrchu'r hyn y mae'r prynwr yn ei ennill ar hyn o bryd yn gywir.

Neu

- Contract gwaith/llythyr gan y cyflogwr presennol sy'n cadarnhau cyfradd tâl, oriau gwaith dan contract a dyddiad cychwyn y prynwr a'r slip cyflog cyntaf sy'n dangos cyfradd tâl uwch y prynwr.

NODER: Dylai'r contract/llythyr fod ar bapur pennawd y cwmni ac wedi'i arwyddo gan y cyflogwr. Ni fydd angen i contract/llythyr sy'n cadarnhau cyflog blynyddol fanylu ar oriau gwaith dan contract.

Os na ellir darparu unrhyw un o'r uchod, mae'n bosibl y rhoddir awdurdod i fwrw ati amodol. Gellir rhoi awdurdod i fwrw ati llawn ar ôl gweld slip cyflog cyntaf sy'n dystiolaeth o incwm misol presennol y prynwr.

Ar gyfer codiad cyflog bach (cost byw/1%), gallwn ddefnyddio'r slip cyflog diweddaraf.

Bonws a chomisiwn

Gellir defnyddio taliadau bonws a chomisiwn yn yr asesiad fforddiadwyedd os oes tystiolaeth gyson iddynt ar bob slip cyflog ac yn angenrheidiol i basio fforddiadwyedd.

Os na ddangosir taliadau bonws ar bob slip cyflog, rhwch amlder y taliadau bonws. Gellir dangos tystiolaeth o fonysau blynyddol a bob chwe mis gyda P60 diweddaraf y prynwr neu trwy weld 12 mis o slipiau cyflog. Nid ystyrir bonysau anghyson eraill neu'r rhai nad oes tystiolaeth ohonynt ar y tri mis diweddaraf o slipiau cyflog.

Ar gyfer cynlluniau cyfranddaliadau gwarantedig fel Admiral, mewnbynnwch gyfranddaliadau a difidendau fel bonws ar y gyfrifiannell fforddiadwyedd.

Didyniadau – Pensiynau, benthyciadau i fyfyrwyr a chynhaliath plant

Dylid cynnwys unrhyw ddidyniad hanfodol o slipiau cyflog yn yr asesiad fforddiadwyedd. Mae'r rhai mwyaf cyffredin yn cynnwys didyniadau pensiwn a benthyciad i fyfyrwyr. Dylid eu hychwanegu i'r gyfrifiannell fforddiadwyedd fel y maent yn ymddangos ar bob slip cyflog ni waeth pa incwm sy'n cael ei ystyried. Golyga hyn yr ystyrir y ffigurau pensiwn a benthyciad i fyfyrwyr yr ydym yn eu defnyddio fel y 'sefyllfa waethaf'.

Os ydych ond yn ystyried incwm sylfaenol a'r achos yn pasio fforddiadwyedd gyda'r symiau llawn pensiwn a benthyciad i fyfyrwyr, nid oes problem.

Fodd bynnag, os nad yw'r achos yn pasio fforddiadwyedd drwy ddefnyddio'r dull hwn, dylech ychwanegu'r holl incwm ychwanegol arall i'r gyfrifiannell fforddiadwyedd.

NODER: Mewn achosion eithriadol lle nad yw'r dull 'sefyllfa waethaf' yn gymwys, defnyddiwch y dull canlynol i gyfrifo'r didyniad pensiwn/benthyciad i fyfyrwyr fel canran o'r cyfanswm incwm:

(Didyniad pensiwn neu fenthyciad i fyfyrwyr/ Cyfanswm incwm a ddangosir ar y slip cyflog) x 100%

Bydd unrhyw awgrymiad bod ymgeiswyr wedi cael eu cynghori i ganslo cyfraniadau pensiwn er mwyn pasio fforddiadwyedd yn cael ei herio.

Dylid cynnwys didyniadau cynhaliaeth plant yn yr asesiad fforddiadwyedd fel y'u datganir yn y ffurflen gwybodaeth eiddo.

Absenoldeb mamolaeth

Ar gyfer ymgeiswyr sydd ar absenoldeb mamolaeth ar hyn o bryd, mae arnom angen:

- Llythyr/contract newydd gan gyflogwr y prynwr yn cadarnhau y dyddiad dychwelyd i'r gwaith disgwylidig ac incwm misol/cyflog ar ôl dychwelyd. Dylai'r llythyr hefyd gadarnhau'r oriau dan gcontract y bydd gan y prynwr wrth

ddychwelyd i'r gwaith gan y gallent fod yn wahanol i'r contract gwreiddiol neu y gallai'r prynwr fod yn dychwelyd yn raddol i'w gyflogaeth.

NODER: Dylai'r llythyr/contract newydd fod ar bapur pennawd y cwmni ac wedi'i arwyddo gan y cyflogwr. Ni fydd angen i gcontract/llythyr sy'n cadarnhau cyflog blynyddol fanylu ar oriau gwaith dan gcontract.

Ac

- Y slip cyflog olaf gan y cyflogwr cyn i'r prynwr adael am absenoldeb mamolaeth, gan gadarnhau unrhyw ddidyniadau benthyciad i fyfyrwyr a phensiwn a chyflog blaenorol y prynwr.

NODER: Os yw'r cyflog/oriau dan gcontract ar ôl dychwelyd i'r gwaith yr un peth â'r slip cyflog olaf cyn yr absenoldeb mamolaeth, rydym yn gallu mewnbynnu didyniadau i mewn i'r gyfrifiannell fforddiadwyedd fel y maent yn ymddangos ar y slip cyflog olaf.

Os yw'r cyflog/oriau dan gcontract ar ôl dychwelyd i'r gwaith yn wahanol, bydd arnom angen cyfrifo'r didyniad pensiwn/benthyciad i fyfyrwyr fel canran o'r cyfanswm incwm.

Fforddiadwyedd – Hunangyflogaeth

Unig fasnachwyr a phartneriaethau

Er mwyn dangos tystiolaeth o incwm hunangyflogedig, bydd arnom angen:

- Trosolwg blwyddyn dreth CThEM a chyfrifiad treth CThEM ar gyfer y flwyddyn ddiweddaraf. Defnyddiwch ffigur y cyfanswm incwm a dderbyniwyd o gyfrifiad treth CThEM ar gyfer yr asesiad fforddiadwyedd.

NODER: Ar gyfer partneriaethau, gwiriwch am raniad canran rhwng partneriaid.

Neu

- Trosolwg blwyddyn dreth CThEM ar gyfer y flwyddyn ddiweddaraf a chyfrifiad treth gan gyfrifydd.

NODER: Mae'n rhaid i gyfrifiad treth y cyfrifydd gyfateb i drosolwg blwyddyn dreth CThEM, gael ei gynhyrchu gan ddefnyddio meddalwedd cyfrifyddu, a chael ei ardystio gan y cyfrifydd.

Neu

- Cyfrifon archwiliedig. Defnyddiwch luniadau neu elw net.

Cyfarwyddwr cwmni cyfyngedig

Er mwyn dangos tystiolaeth o incwm hunangyflogedig, bydd arnom angen:

- Trosolwg blwyddyn dreth CThEM a chyfrifiad treth CThEM ar gyfer y flwyddyn ddiweddaraf. Defnyddiwch gyfanswm y taliadau cydnabyddiaeth, difidendau a chyflog y cyfarwyddwr o gyfrifiad treth CThEM yn yr asesiad fforddiadwyedd.

Neu

- Trosolwg blwyddyn dreth CThEM ar gyfer y flwyddyn ddiweddaraf a chyfrifiad treth gan gyfrifydd.

NODER: Mae'n rhaid i gyfrifiad treth y cyfrifydd gyfateb i drosolwg blwyddyn dreth CThEM, gael ei gynhyrchu gan ddefnyddio meddalwedd cyfrifyddu, a chael ei ardystio gan y cyfrifydd.

Neu

- Cyfrifon archwiliedig. Defnyddiwch luniadau neu elw net.

NODER: Os oes gan y cwmni fwy nag un cyfarwyddwr, eglurwch ganran y cyfranddaliadau a dderbynnir gan yr ymgeisydd.

Is-gontractwyr

Ar gyfer isgontractwyr sy'n ystyried eu hunain yn 'hunangyflogedig', mae arnom angen:

- Trosolwg blwyddyn dreth CThEM a chyfrifiad treth CThEM ar gyfer y flwyddyn ddiweddaraf. Defnyddiwch ffigur y cyfanswm incwm a dderbyniwyd o gyfrifiad treth CThEM ar gyfer yr asesiad fforddiadwyedd.

Neu

- Trosolwg blwyddyn dreth CThEM ar gyfer y flwyddyn ddiweddaraf a chyfrifiad treth gan gyfrifydd.

NODER: Mae'n rhaid i gyfrifiad treth y cyfrifydd gyfateb i drosolwg blwyddyn dreth CThEM, gael ei gynhyrchu gan ddefnyddio meddalwedd cyfrifyddu, a chael ei ardystio gan y cyfrifydd.

Neu

- Cyfrifon archwiliedig. Defnyddiwch luniadau neu elw net.

Ar gyfer isgcontractwyr yr ystyrir eu bod yn 'gyflogedig' (yn derbyn slipiau cyflog/anfonebau sy'n dangos treth TWE a didyniadau Yswiriant Gwladol), mae angen y slipiau cyflog/anfonebau diweddaraf sy'n cynnwys y tri mis diwethaf arnom. Gall hyn fod yn:

- 3 x slip cyflog/anfoneb fisol
- 3 x slip cyflog/anfoneb pedair wythnos
- 6 x slip cyflog/anfoneb bob pythefnos
- 12 x slip cyflog/anfoneb wythnosol

A

- Contract neu lythyr sy'n cadarnhau hyd y contract presennol a'r gyfradd ddyddiol/yn ôl yr awr.

NODER: Ni ddylid cyfrifo incwm drwy ddefnyddio'r gyfradd ddyddiol/yn ôl yr awr a nodir ar y contract. Mae hwn yn incwm 'potensial' ac nid yw'n adlewyrchu gwir incwm a enillir. Dylid ystyried incwm â thystiolaeth ar slipiau cyflog/anfonebau yn unig.

Os oes gan y contract presennol lai na chwe mis ar ôl, bydd angen tystiolaeth o gyflogaeth barhaus dros y 12 mis diwethaf arnom. Gall tystiolaeth o gyflogaeth fod ar ffurf contractau blaenorol neu slipiau cyflog/anfonebau sy'n cynnwys y 12 mis diwethaf neu P60 diweddaraf yr ymgeisydd.

Fforddiadwyedd – Pensiynau, Budd-daliadau a Lwfansau a Chynhaliaeth

Pensiynau

Derbynnir taliadau pensiwn y wladwriaeth, preifat a lluoedd fel ffurf o incwm.

Dylid dangos tystiolaeth ar eu cyfer trwy lythyr gan y darparwr pensiwn yn cadarnhau swm y taliad misol a chwe mis o gyfriflenni banc.

NODER: Os nad yw'r swm ar y llythyr dyfarnu yn cyfateb â'r cyfriflenni banc neu fod y taliadau misol yn anghyson, eglurwch yr anghysondebau a ddangosir.

Budd-daliadau a Lwfansau'r Lluoedd

Taliadau Annibyniaeth y Lluoedd Arfog	Chwe mis o gyfriflenni banc fel tystiolaeth. Ni fydd angen y llythyr dyfarnu gan nad yw'r budd-daliad yn cael ei ailasesu. Mae'n £139.75 yr wythnos ar hyn o bryd, a delir bob pedair wythnos.
Pensiwn Rhyfel Gwraig Weddw/Gŵr Gweddw	Trin fel pensiynau eraill.
Lwfans Rhiant Gweddw	Chwe mis o gyfriflenni banc a llythyr dyfarnu fel tystiolaeth.

Budd-daliadau a lwfansau anabledd

<p>Premiymau anabledd ychwanegol (ar gyfer anableddau eang neu ddifrifol);</p> <p>Lwfans Person Dall;</p> <p>Lwfans Gweini Cyson;</p> <p>Lwfans Byw i'r Anabl ar gyfer plant;</p> <p>Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (Budd-dal Analluogrwydd yn flaenorol);</p> <p>Lwfans Anabledd Difrifol Eithriadol;</p> <p>Cymhorthdal Incwm (fel rhan o fudd-daliadau anabledd yn unig);</p> <p>Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol;</p> <p>Taliad Annibyniaeth Personol (Lwfans Byw i'r Anabl yn flaenorol);</p> <p>Lwfans Ennill Llai; (fel elfen o) Gredyd Cynhwysol</p>	<p>Chwe mis o gyfriflenni banc a llythyr dyfarnu fel tystiolaeth.</p>
---	---

Budd-daliadau a lwfansau ar gyfer trydydd partion/dibynyddion

Lwfans Gofalwyr; Lwfans gofalwr maeth	Chwe mis o gyfriflenni banc a llythyr dyfarnu fel tystiolaeth.
Budd-dal Plant; Credydau Treth Plant (gall fod yn elfen o Gredyd Cynhwysol)	Ni dderbynnir.
Taliadau cynhaliaeth plant	Chwe mis o gyfriflenni banc ac un o'r canlynol fel tystiolaeth: <ul style="list-style-type: none"> – Copi o lythyr cytundeb Gwasanaeth Cynhaliaeth Plant. – Copi o Orchymyn Cydsynio. – Copi o lythyr yn cadarnhau trefniant preifat ac yn manylu swm ac amllder taliadau cynhaliaeth wedi'i arwyddo gan y ddau riant. – Copi o ffurflen trefniant preifat wedi ei chwblhau'n llawn ac wedi'i harwyddo gan y ddau riant. Gallwch weld y ffurflen yma.
Absenoldeb a thâl mabwysiadu statudol	Trin yr un fath ag absenoldeb a thâl mamolaeth. Tystiolaeth ar slipiau cyflog.

Credyd Cynhwysol (pob elfen yn cael ei hasesu ar wahân yn ychwanegol i'r Lwfans Sylfaenol)

<p>Lwfans Sylfaenol;</p> <p>Elfennau anabledd;</p> <p>Elfennau Lwfans Gweithio/Credyd Treth Gwaith</p>	<p>Bydd angen 6 mis o gyfriflenni banc fel tystiolaeth a llythyr dyfarnu/golwg ar werth 6 mis o gyfriflenni Credyd Cynhwysol.</p>
<p>Elfennau Credyd Treth Plant/Plentyn;</p> <p>Tai/Budd-dal Tai;</p> <p>Elfen Ceisio Gwaith</p>	<p>Ni dderbynnir.</p>

Bwrsariaethau a Thâl Myfyrwyr

Derbynnir bwrsariaethau a thâl myfyrwyr (math o gyflog ar gyfer interniaethau a phrentisiaethau) fel ffurf o incwm.

Dylid dangos tystiolaeth ar eu cyfer trwy lythyr gan y darparwr yn cadarnhau swm y taliad misol/blynyddol a chwe mis o gyfriflenni banc (neu gyfriflen banc yn dangos y swm blynyddol sy'n cael ei dderbyn).



Cymhwysedd – Canllawiau Cyffredinol

Clirio dyledion

Os nad yw cais yn pasio fforddiadwyedd oherwydd balans cerdyn credyd neu daliadau benthyciad/hurbwrcas a hoffech dynnu'r ffigurau o'r gyfrifiannell fforddiadwyedd, bydd arnom angen tystiolaeth fod y balans cerdyn credyd neu fenthyciad wedi cael ei dalu.

Ar gyfer cardiau credyd, bydd arnom angen cyfriflen cerdyn credyd sy'n dangos taliad o'r balans.

Ar gyfer taliadau benthyciad/hurbwrcas, bydd arnom angen llythyr neu e-bost gan y rhoddwr benthyciadau yn cadarnhau bod y balans wedi ei dalu.

Os yw clirio dyledion yn angenrheidiol i basio fforddiadwyedd, bydd tystiolaeth yn ofynnol er mwyn i ni allu rhoi awdurdod i fwrw ati. Mewn rhai achosion, mae'n bosibl y bydd yn briodol rhoi awdurdod i fwrw ati amodol nes ein bod yn derbyn tystiolaeth fod y dyledion wedi eu clirio. Os nad ydym yn derbyn tystiolaeth fod y dyledion wedi eu clirio, cedwir Cymorth i Brynu – Cymru yr hawl i dynnu'r awdurdod i fwrw ati yn ôl.

Pellter cymudo rhesymol

Y pellter cymudo a dderbynnir rhwng gweithle ymgeisydd a'r eiddo yw 50 milltir. Caiff unrhyw bellter cymudo sydd dros 50 milltir yn sylweddol ei herio.

Os oes dau ymgeisydd, mae'n rhaid i o leiaf un weithio o fewn pellter cymudo rhesymol i'r eiddo.

Gweithio o bell a gweithio gartref

Gweithiwr o bell yw rhywun a all weithio 'o bell', fel arfer o'r cartref.


Gallai slipiau cyflog gweithwyr o bell gynnwys cyfeiriad y cwmni y maent yn gweithio iddo a gallai hyn fod yn hwy na'r canllawiau pellter cymudo rhesymol (pencadlys yn Llundain er enghraifft). Rhowch gyfeiriad lleoliad arferol y gwaith (e.e. cyfeiriad cartref presennol) os yw'n wahanol.

Os oes amheuaeth, gallwn ofyn am dystiolaeth gan y cyflogwr fod yr ymgeisydd yn gweithio o bell/gartref. Gallai hyn fod ar ffurf e-bost neu lythyr gan y cyflogwr a dylai gadarnhau bod yr ymgeisydd yn gweithio o bell am fwyafrif ei oriau gwaith.

Preswylfa barhaol

Mae'n rhaid i'r eiddo fod yn 'breswylfa barhaol' i o leiaf un o'r ymgeiswyr.

Ystyrir achosion ar gyfer galwedigaethau, megis personél y Lluoedd Arfog sydd oddi cartref am gyfnodau estynedig o amser, os bwriedir yr eiddo fel preswylfa barhaol pan fydd yr ymgeisydd yn dychwelyd i Gymru.



Prawf o'ch cyfeiriad

Os yw chwiliad credyd Equifax yn dangos nad yw'r ymgeisydd wedi cofrestru ar y rhestr etholwyr yn ei gyfeiriad presennol, bydd angen prawf o'ch cyfeiriad arnom.

Gallwn dderbyn y canlynol fel prawf o'ch cyfeiriad:

Trwydded yrru	Rhaid i'r ddogfen fod yn gyfredol.
Bil cyfleustodau; Cyfriflen cyfrif cyfredol; Cyfriflen cyfrif cynilo	Y ddogfen ddiweddaraf sy'n ddyddiedig o fewn y tri mis diwethaf.
Bil treth gyngor; Datganiad/cynnig morgais; Llythyr dyfarnu budd-dal; Llythyr pensiwn; Llythyr grant gan yr awdurdod lleol; Gohebiaeth treth CThEM; Cerdyn rhent/cytundeb tenantiaeth gan yr awdurdod lleol	Y ddogfen ddiweddaraf sy'n ddyddiedig o fewn y 12 mis diwethaf.